# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2020

Amser: 14.00 - 16.22

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6334

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Caroline Jones AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Sara Kirkpatrick, Welsh Women's Aid<br>Yasmin Khan, Unigolyn |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai'n gadael y cyfarfod am ryw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Dirprwyodd David Melding AS ar ran Mark Isherwood AS ar gyfer eitem 8, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48.

## 2 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Sara Kirkpatrick, Prif Weithredwr Cymorth i Ferched Cymru

2.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y tyst i wneud y canlynol:

- rhoi tystiolaeth bresennol, os yw’n bosibl, ar hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig;
- rhoi gwybodaeth am bolisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag aflonyddu a stelcio.

## 3 Ymchwiliad i Covid-19 a'i effaith: sesiwn dystiolaeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y canlynol:

- Yasmin Khan, Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

3.2 Yn ystod y cyfarfod, cytunodd y tyst i wneud y canlynol:

- rhoi gwybodaeth am strategaeth ymadael y Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer dod â'r cyfyngiadau symud i ben;
- rhoi gwybodaeth benodol am raglenni cyflawnwyr.

## 4 Papur i'w nodi

### 4.1 Ymateb gyda'r wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Fudd-daliadau yng Nghymru - 20 Mai 2020

4.1a Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i ddiweddaru i adroddiad y Pwyllgor ar Fudd-daliadau yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 6 Sesiynau tystiolaeth ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol - trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitemau 2 a 3.

## 7 Blaenraglen waith

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a chytuno arni.

## 8 Bil Diogelwch Tân: Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol

8.1 Trafododd y Pwyllgor Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diogelwch Tân.